

CALENDR MIS HYDREF 2013

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	Organydd y Mis : Mair Evans	
6 Hydref 10.30yb 2.30yp	Clwb Sul o dan arweiniad Mrs Ceri Williams Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan
13 Hydref 10.30yb	Oedfa Deuluol y Croeso Mawr: Gweinidog	Gofal y Te: Sandra Beechey
20 Hydref 10.30yb 10.00yb a 6.00yh	Clwb Sul o dan arweiniad Mrs Ceri Williams Cyrddau Pregethu Bethel a Seion: Y Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin ym Methel	
27 Hydref 10.30yb	Oedfa Bregeth: Gweinidog	
3 Tachwedd 10.30yb 2.30yp	Clwb Sul o dan arweiniad Mrs Ceri Williams Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue

I'CH DYDDIADUR

7 Hydref: Cinio Bara Caws yn Neuadd yr Eglwys, Llanbadarn o 12.00-1.30yp.

9 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

12 Hydref: Taith Gerdded: O Lan i Lan: o Langelynnin i Lanegryn, Meirionydd dan arweiniad Carys a Dilwyn Jones. Cwrdd am 10.30yb yn y gilfan barcio ger Eglwys Llangelynnin. Taith tua 5 milltir. Croeso cynnes i bawb.

16 Hydref : Barbara Davies, Talgarreg yn siarad am ei chyfrol *Yr Ifaciwi*: Cymdeithas y Penrhyn am 7.30yh.

23 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

29 Hydref: Cylch Darllen y Beibl am 7.30yh: Llyfr y Datguddiad Pennod 11. Croeso cynnes i bawb.

5 Tachwedd: Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Siloam, y Ferwig.

12 Tachwedd: Noson Pwdin, Paned a Chwis: Festri Horeb 6.30yh.

LLOFFION

- Dymuniadau gorau i Mr Cliff Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty.
- Dymuniadau gwresocaf i Mrs Glenys Thomas a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar ddydd Sul, 13 Hydref.
- Dymuniadau gorau i Sian, Cefn-Llwyd sydd wedi bod yn yr ysbyty.
- Llongyfarchiadau i Lowri Morgan ar greu logo trawiadol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.
- Dymuniadau gorau hefyd i Manon Reynolds sydd wedi symud i Gaerdydd.
- Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Oedfa Ddiolchgarwch ac i'r rhai a oedd wedi cymryd rhan a gosod y blodau. Cawsom oedfa gofiadwy yng nghwmni Carol Hardy. Cyfanswm y casgliad oedd £84-00
- Dymuniadau gorau i Gwenno Morris sydd bellach yn astudio yng Ngholeg Ceredigion a llongyfarchiadau iddi ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU.

Clwb Plant Hanner Tymor Festri Horeb: Cynhelir Clwb Plant ar foreau Dydd Llun a Mawrth, 28 a'r 29 Hydref o 10.00yb -12.30yp. Croeso cynnes i blant oedran 7-10. Ceir rhagor o fanylion gan y Gweinidog.

Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae rhaglenni 2014 ar gael gan Ceris – pris £1.35.

Noson Pwdin a Phaned: Cynhelir Noson Pwdin, Paned a Chwis ar nos Fawrth, 12 Tachwedd. Os hoffech gyfrannu pwdin neu de, coffi ayyb, byddwch garediced â rhoi gwybod i Janice.

Gair y Dydd: Pe hoffech dderbyn copi o *Gair y Dydd*, deunydd defosiwn dyddiol ar gyfer 2014 cysylltwch â Ceris cyn diwedd y mis os gwelwch yn dda. Pris am y flwyddyn: £7

Ymgyrch Nadolig y Plentyn: Rydym yn bwriadu eleni eto baratoi bocsys Ymgyrch Nadolig y Plentyn (*Operation Christmas Child*) a fydd yn cael eu cludo i blant mewn angen ar draws y byd ar gyfer y Nadolig. Os hoffech chi baratoi bocs cysylltwch â Ceri neu'r Gweinidog am fwy o fanylion. Byddwn yn cyflwyno'r bocsys ar yr ail Sul ym mis Tachwedd.

Croeso: Croeso cynnes i Sioned Williams sydd yn treulio cyfnod o brofiad gwaith yn y weinidogaeth yng ngofalaethau'r Parchedigion Eifion Roberts, Wyn Morris a minnau. Rydym eisoes wedi cael ei chwmmi mewn rhai o'n hoedfaon a'n cyfarfodydd.

Llongyfarchiadau i William ar drefnu arddangosfa o luniau Ysgol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwysi fel rhan o ddathliadau 150 mlwyddiant yr ysgol.

Diolch i Richard am drefnu'r gwaith o gwmpas y bedd y tu allan i ddrws y capel. Mae'r gwaith wedi hwyluso'r mynediad i'r capel o gyfeiriad y festri yn fawr iawn.

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi Oedfa Menter Gobaith yn Llanilar ym mis Medi. Edrychwn ymlaen at groesawu ein Swyddog Datblygu newydd, Zoe Glynne Jones, a fydd yn dechrau ar ei gwaith ym mis Tachwedd.



YR HEUWR

Cylchgrawn Misol Eglwys Horeb, Penrhyn-coch

Cyrol 2 Rhif 59

Hydref 2013

Un o wyliau pwysicaf y Calendr eglwysig yw'r Wyl Ddiolchgarwch a'r adeg yma bob blwyddyn yn ystod misoedd Medi a Hydref cynhelir oedfaon arbennig ar hyd a lled ein gwlad i ddiolch yn benodol i Dduw am ei ofal trosom. Mae'n gyfle yn ogystal i ddiolch am yr amrywiol ddoniau a roddwyd inni i adeiladu cymdeithas sy'n gymeradwy gan ein Duw. Doniwyd bob yr un ohonom â'r gallu i wneud cyfraniadau adeiladol i'n cymdeithas a'n cyfrifoldeb a'n dyletswydd yw manteisio ar bob cyfle a ddaw i'n rhan i wireddu Teyrnas Dduw.

Un sydd wrthi yn rhannu o'i phrofiad a'i doniau er mwyn creu gwell gymdeithas yw gwraig o'r enw Carol Hardy. Cawsom y fraint o wrando ar ei thystiolaeth rymus yn Oedfa Ddiolchgarwch Horeb eleni. Dyma ychydig o'i hanes yn ei geiriau ei hun:

"Carol dwi i. Dwi'n ferch, yn fam, yn Nain, yn ffrind, yn gymydog ... a dweud y gwir gallwn wisgo sawl het, ond beth ydw i'n bennaf? Alcoholig dw i. Dwi'n cofio'n glir y dydd y bu'n rhaid i mi ddweud ar goedd am y tro cyntaf erioed, y geiriau ofnadwy hynny, "dwi'n alcoholig!" Roedd y cyfan yn brofiad hunllefus a lenwodd fi â phanig, cywilydd, hunan-gasineb ac ofn enfawr. Heddiw, mae agwedd a theimladau gwahanol gennyf yn fy nghalon wrth ddisgrifio f'hunan fel alcoholig. Wedi cyfnod hir o dderbyn cymorth a chariad eraill dw i wedi llwyddo i adnewyddu fy mywyd."

Erbyn hyn, mae Carol yn gydlynnydd prosiect Estyn Llaw a Hyfforddwr Adferiad Stafell Fyw Caerdydd (canolfan i bobl â phroblemau dibyniaeth). Amcan y prosiect Estyn Llaw yw cyflwyno sgiliau hyfforddi adferiad yn y cydestun personol a chymunedol ar gyfer amrediad o bobl sy eisiau gwybod mwy am ddibyniaethau a'r dulliau gwahanol o gynnig adferiad. Bwriedir cynnal gweithdai i arfogi unigolion gyda sgiliau pwrpasol i gynorthwyo unigolion sy'n dioddef o broblemau dibyniaeth. Gwyddom fel y mae problemau dibyniaeth, megis alcohol, cyffuriau a gamblo yn medru chwalu teuluoedd a bywydau a pheri gofid enbyd. Dymunwn fendith Duw ar waith Carol ac edrychwn ymlaen at dderbyn rhagor o wybodaeth am y gweithdai. Yn y cyfamser testun diolch sydd gennym am ei chyfraniad aruthrol i'r gwaith pwysig hwn.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: berwynfa@btinternet.com